

MANYLEB ASESU LEFEL 5

Enw'r myfyriwr:		Rhif Adnabod y myfyriwr:	
Rhaglen:	BA Addysg Gynradd gyda SAC		
Modwl:	Addysgu Iaith a Mathemateg		
Cod y modwl:	ECAD5004C	Cyfraniad Asesiad Cyffredinol Modwl (%):	at y 100%
Darlithydd:	L. DAVIES N. DEFIS	Gwiriwr Mewnol:	H. DENNY
Teitl yr Aseiniad:	Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg ac iaith gydag argymhellion ar sut i sicrhau cynnydd.	Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):	Aseiniad Ysgrifenedig: 3, 500 o eiriau Atodiadau cywerth â 1, 500 o eiriau
Dyddiad cyflwyno:	4 Ebrill 2019	Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:	24 Mai 2019
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol): Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb. Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academiaidd / cyfeirnod:	Mae gonestrwydd academiaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r myfyriwr allu dangos y gallu i:

1. roi tystiolaeth o wybodaeth gadarn o ddisgwyliadau cenedlaethol yn gysylltiedig ag oedran mewn iaith a mathemateg;
2. arddangos dealltwriaeth ddamcaniaethol o'r modd mae plant yn dysgu sgiliau iaith a mathemateg effeithiol;
3. arddangos gallu datblygol o ran sut i wneud dewisiadau addysgol sy'n sicrhau dysgu ac addysgu da;
4. trefnu eu gwybodaeth a'r hyn y maent wedi'i ddysgu drwy ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, a chyflwyno'u gwaith ar y lefel briodol.

DISGRIFIAD O'R DASG

Teitl yr Aseiniad: Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg ac iaith gydag argymhellion ar sut i sicrhau cynnydd.

Aseiniad Ysgrifenedig: 3, 500 o eiriau – Mae hwn yn cynnwys yr holl destun, tablau ayyb a ddaw ar ôl y teitl hyd at (ond heb gynnwys) y rhestr gyfeirnod.

Atodiadau cywerth â 1, 500 o eiriau – ni chaiff y geiriau sydd yn eich atodiadau eu cyfrif, ond caiff y gwaith a gafodd ei wneud ar gyfer casglu'r atodiadau at ei gilydd eu hystyried cywerth ag 1, 500 o eiriau ysgrifenedig.

Y Dull Mosaig


Datblygwyd y 'dull mosaig' gan Clark a Moss fel ffordd o ddod o hyd i safbwyntiau pobl ifanc (gweler Clark a Moss, 2011 am fanylion pellach). Cafodd y dull mosaig ei ddylunio i'w ddefnyddio gyda phlant ifanc iawn, ond gellir ei addasu a'i ddefnyddio gyda phlant hŷn hefyd.

Y prif syniad sydd y tu ôl i'r dull mosaig yw bod nifer o ffynonellau yn cael eu defnyddio **gan y plentyn** i gasglu safbwyntiau: yna, gellir eu defnyddio mewn ffordd gydweithredol gyda'r plentyn er mwyn darganfod beth yw barn y plentyn.

Yn yr aseiniad hwn, ni fyddwch yn defnyddio pob agwedd o'r dull mosaig, ond gofynnir i chi ddefnyddio rhai agweddau o'r dull hwn er mwyn helpu archwilio'r cwestiwn 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg?'

Darllen sy'n ymwneud â'r dull mosaig:

Clark, A. and Moss, P. (2011) *Listening to Young Children: The Mosaic Approach* (2nd ed.) National Children's Bureau



Mae'r llyfr hwn ar gael mewn ffurf e-lyfr yn y llyfrgell

Moss, P. (2006) Listening to Young Children: Beyond Rights to Ethics in *Let's Talk about Listening to Children* Learning and Teaching Scotland: ar gael ar:

http://www.educationscotland.gov.uk/Images/listeningtochildren_tcm4-324433.pdf

<http://www.llaisdisgyblioncymru.org.uk/cymraeg/meithrin/cymerwch-ran/yr-agwedd-mosaic/>

(ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg, gweler isod)

<http://www.pupilvoicewales.org.uk/nursery/get-involved/mosaic-approach/>

Beth i wneud ar PAP

Yn ystod PAP (ym mha bynnag gyfnod allweddol sydd fwyaf addas), gofynnir i chi nodi **un dysgwr** sydd yn eich dosbarth PAP. Argymhellir bod y dysgwr hwnnw yn cael ei ystyried yn un sy'n dangos cyrhaeddiad canolig o fewn y dosbarth. Dylech ymgynghori â'ch athro dosbarth gan ofyn iddo ddarllen a llofnodi'r llythyr cysylltiedig (gweler tud.19/20). Bydd angen gofyn i'r dysgwr hefyd a oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i'ch helpu gyda pheth gwaith y brifysgol a dylech esbonio iddo yr hoffech ddarganfod beth sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg (efallai bydd yn rhaid i chi esbonio hwn mewn geiriau y mae plentyn yn eu deall).

Mae'n holl bwysig eich bod yn dilyn gweithdrefnau moesegol wrth weithio gyda phlant. Yn enwedig, **bydd yn rhaid i chi**:

1. Ofyn am ganiatâd y plentyn i gymryd rhan gan sicrhau bod ffordd o 'dynnu'n ôl' e.e. 'A fyddai gwahaniaeth gyda chi fy helpu dros yr ychydig wythnosau nesaf drwy ateb cwestiynau a gwneud ambell dasg a fydd yn fy helpu gyda'r gwaith sydd gennyf ar gyfer y brifysgol. Gallwn stopio unrhyw bryd, ac os nad ydych am gymryd rhan, mae hynny'n iawn hefyd'.
2. Sicrhewch nad yw cymryd rhan mewn unrhyw agwedd o'r gwaith hwn yn niweidiol i'r plentyn (e.e. mae ef/hi yn colli cyfle i wneud rhywbeth mae ef/hi am ei wneud).
3. Sicrhewch eich bod yn gadael i'r plentyn arwain ac os mae'n ymddangos bod diffyg diddordeb neu frwdfrydedd, peidiwch â rhoi pwysau arno/arni i gymryd rhan.

Yn ystod y lleoliad PAP, bydd gofyn i chi gasglu data am y dysgwr hwn. Dylai'r data eich helpu i ddeall ymateb y plentyn i'r cwestiwn: 'Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg?'

Mae angen bod y data yn cynnwys:

- Arsylwi;
- Gwneud mapiau;
- Ffotograffau;
- Cyfweld â naill ai'r dysgwr neu ei athro.
- Enghreifftiau o'r gwaith a wnaed.

Arsylwi

Dylech geisio arsylwi ar y plentyn yn dysgu mewn amrywiol cyd-destunau lle gallai ef/hi fod yn defnyddio iaith a mathemateg. Yna, gellir cynnwys nodiadau arsylwi fel atodiad.

Gallwch gynnal yr arsylwi pan fyddwch yn addysgu neu beidio, er byddai rhaid nodi unrhyw arsylwadau a wnaed ar ôl y wers (e.e. mewn llyfr arsylwi). Nid oes rhaid i'r arsylwadau ymwneud yn benodol â gwrs fathemateg neu wers iaith, ond dylai'r arsylwadau yr ydych yn eu cynnwys yn eich atodiad ymwneud ag iaith neu lythrennedd a mathemateg neu rifedd. Er enghraifft, o fewn y Cyfnod Sylfaen, efallai yr hoffech gynnwys nodiadau arsylwi sydd wedi'u seilio ar arsylwi ar y plentyn yn ardal chwarae rôl yr ystafell ddosbarth, neu yn ystod Cyfnod Allweddol 2, efallai y gallech gynnwys nodiadau arsylwi sy'n ymwneud â gwrs wyddoniaeth lle mae'r plentyn yn defnyddio rhifedd.

Nid oes rhaid i chi gynnwys pob arsylwad yr ydych wedi ei wneud; dim ond yr arsylwadau hynny sy'n ymwneud â'r drafodaeth.

Gellir dod o hyd i gyfarwyddyd arsylwi ar blant yma:

<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/observing-children/?skip=1&lang=cy>

<http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140828-observing-children-en.pdf>

Sylwer, er bod y ddogfen yn cyfeirio at y Cyfnod Sylfaen, mae'r cyfarwyddyd yr un mor berthnasol wrth arsylwi ar blant yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gwneud Mapiau

Term a gaiff ei ddefnyddio yng nghyd-destun y dull mosaig yw'r term 'gwneud mapiau', ond nid yw'n cyfeirio at greu map daearyddol – yn hytrach mae'n ymwneud â nodi mannau pwysig. Ar gyfer yr aseiniad hwn, mae'r agwedd gwneud mapiau yn ymwneud â'r gallu i adnabod (gyda help y plentyn) mannau pwysig sy'n gysylltiedig â'r dasg o ddysgu iaith a mathemateg. Er enghraifft, gallech:

- Ofyn i'r plentyn i fynd â chi i fannau yn yr ysgol lle mae'n dysgu (neu yn defnyddio) iaith neu fathemateg.
- Ofyn i'r plentyn i dynnu llun /ddangos rhannau o'r ystafell ddosbarth lle mae'n hoffi dysgu iaith/mathemateg.

- Arsylwi ar blentyn mewn mannau gwahanol gan nodi lle caiff iaith/mathemateg eu defnyddio. Mae'r enghreifftiau uchod (a sut cânt eu gweithredu) yn dibynnu ar y lleoliad ac ar oedran y plant yr ydych yn gweithio â hwy; defnyddiwch eich barn broffesiynol wrth benderfynu ar sut i weithredu'r agwedd hon.

Ffotograffau

Mae defnyddio ffotograffau fel agwedd o'r dull mosaig yn galluogi plentyn i ddweud pethau pwysig wrthyh. Dylai'r lluniau sy'n ymddangos yn yr atodiad fod wedi cael eu tynnu gan y plentyn a dylai unrhyw ffotograffau gael eu tynnu a'u defnyddio yn unol â pholisi'r ysgol. Yng nghyd-destun yr aseiniad hwn, gallech ofyn i'r dysgwr i dynnu ffotograffau o'r pethau hynny sy'n ei helpu i ddysgu iaith a mathemateg.

Cyfweliad gyda naill ai'r dysgwr neu athro'r dysgwr

Byddai cyfweliad anffurfiol gyda'r dysgwr yn eich galluogi i ddefnyddio'r data a gasglwyd (e.e. a ddaw o wneud mapiau a ffotograffau) er mwyn archwilio a deall safbwynt y plentyn. Wrth wneud hyn, dylech geisio sicrhau nad ydych yn mynegi barn ar yr hyn y mae'r plentyn yn ei rannu, ond eich bod wir yn ceisio canfod safbwyntiau'r plentyn ar yr hyn a gaiff ei drafod. Gallech ddefnyddio'r cyfle hefyd i ddod o hyd i farn plant ar iaith a mathemateg. Er enghraifft:

*A oes yna bethau am ddarllen/ ysgrifennu/ llefaredd/ mathemateg 'rwyf ti'n eu mwynhau?
A wyt ti'n meddwl bod dysgu iaith/mathemateg yn bwysig? Pam?
Beth wyt ti'n ei wneud pan fydd angen help arnat mewn?*

Pa rannau o fathemateg 'rwyf yn eu mwynhau fwyaf (e.e. siapau, rhif, mesur, trafod data ac ati)? Pa rannau o iaith 'rwyf yn eu mwynhau fwyaf (e.e. darllen, ysgrifennu, siarad)?

Pan fyddwch yn cyfweld â phlant, mae'n hanfodol eich bod yn sensitif ac yn ymddwyn yn foesebol bob amser, gan sicrhau bod y plentyn yn teimlo'n gyfforddus ac yn ymwybodol bod cymryd rhan yn opsiynol.

Cofiwch eich bod yn ceisio dod o hyd i safbwynt y plentyn ac nid rhoi'r plentyn ar brawf; ceisiwch ofyn cwestiynau sy'n gwestiynau 'penagored' ac sy'n eich galluogi i ddod o hyd i safbwynt y plentyn.

Gallech benderfynu rhoi cynnig ar ddull 'creadigol' er mwyn dod o hyd i safbwyntiau'r plentyn ar iaith a mathemateg. Er enghraifft:

Tynna lun ohonot ti dy hun yn dysgu mathemateg / iaith – yn dy lun, ceisia ddangos i mi sut 'rwyf yn teimlo, a'r pethau hynny 'rwyf yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi.

Neu:

Dyma rai lluniau o bobl sydd â theimladau gwahanol. P'un o'r lluniau hyn sy'n dangos sut 'rwyf fel arfer yn teimlo pan fyddi di'n:

Ysgrifennu

darllen

siarad

gwrando

gweithio gyda rhifau

gweithio gyda siapiau?

Gallai fod o help pe baech yn trafod y dysgwr gyda'r athro dosbarth: gellir gwneud hyn yn lle neu yn ogystal â chyfweliad gyda'r plentyn.

Samplau o waith

Drwy gydol PAP, dylech gasglu samplau o waith iaith a mathemateg y dysgwr. Nid oes rhaid i chi gasglu popeth y mae'r plentyn yn ei wneud o ran iaith a mathemateg, ond canolbwyntiwch yn benodol ar gasglu samplau o waith sy'n dweud rhywbeth wrthyfch am sut mae'r plentyn wedi dysgu iaith a mathemateg.

Ar bob sampl, nodwch cyd-destun y gwaith yn gryno (e.e. amcan y dysgu / a gafodd y gwaith ei wneud gan unigolyn / grŵp / pâr ac a gafodd y plentyn unrhyw gymorth).

Caiff y samplau o waith a gasglwyd eu hystyried yn bellach pan fyddwch yn dychwelyd i'r brifysgol ar ôl PAP.

Ysgrifennu'r aseiniad

Teitl: **Beth sy'n fy helpu i ddysgu iaith a mathemateg? Dadansoddiad o sut mae plentyn yn dysgu iaith a mathemateg gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd.**

3, 500 o eiriau.

Dadansoddiad o'r data y gwnaethoch eu casglu yn ystod PAP yw'r aseiniad ysgrifenedig.

Sicrhewch os gwelwch yn dda nad yw'r disgybl na'r ysgol dan sylw yn cael eu henwi o fewn yr aseiniad e.e. defnyddiwch ffugenwau. Dylid gorchuddio pob llun /enw/logo a allai ddatgelu'r disgybl neu'r ysgol. Y llythyr cadarnhau yn unig fydd yn cyfleu gwybodaeth am yr ysgol.

Strwythur yr Aseiniad

Sylwer os gwelwch yn dda y dylech ddefnyddio'r cyfarwyddyd canlynol i gynorthwyo (ond nid i gyfyngu) eich ysgrifennu.

Rhagymadrodd - tua 300 o eiriau

Yn y rhagymadrodd, dylech amlinellu diben yr aseiniad a'r hyn yr ydych yn bwriadu ei drafod.

Dylech gyflwyno cyd-destun yr aseiniad (heb enwi'r ysgol na'r plentyn).

Rhowch wybodaeth ffeithiol gryno (e.e. ysgol fawr / fach yn Ne Cymru). Mae'r disgybl sydd o dan sylw yn ferch blwydd oed ym mlwyddyn...

Amlinellwch yn gryno sut y casglwyd y data – gan ddangos eich bod yn deall yr angen i ymddwyn yn foesegol.

Dadansoddiad o'r dysgwr– tua 2, 000 o eiriau

Yn y rhan hon, dylech gasglu at data ynghyd er mwyn dadansoddi sut mae'r plentyn yn dysgu iaith (1, 000 o eiriau) a dysgu mathemateg (1, 000 o eiriau).

Gwnaiff dadansoddiad cadarn adnabod y pwyntiau allweddol, cefnogi'r pwyntiau hynny gan gyfeirio at dystiolaeth (h.y. y data a gasglwyd) a hefyd cysylltu pwyntiau perthnasol â darllen priodol.

O fewn eich dadansoddiad o'r dysgwr, dylech hefyd werthuso'r data 'rydych wedi'i gasglu.


Gallai fod yn ddefnyddiol pe baech yn strwythuro pob rhan gan ddefnyddio modelau dysgu. Gallai defnyddio model o'r fath eich cynorthwyo i ddadansoddi ac osgoi disgrifio'r data yn unig.

Er enghraifft:

Mae Nottingham (2013) yn trafod y model dysgu ASK:

Mae Nottingham, J. (2013) *Encouraging Learning* Oxon: Routledge ar gael yn y llyfrgell.

Y Model ASG – Agweddau, Sgiliau a Gwybodaeth



Er enghraifft:

Agweddau – gallech ddadansoddi agwedd dysgwr (o ran iaith a mathemateg) ar sail dystiolaeth a gasglwyd wrth arsylwi/ cyfnewid/ gwneud mapiau/ neu a ddaw o ffotograffau. Gallai hyn ystyried y pethau mae'r dysgwr yn eu hoffi a'u casáu / ei gymhelliant a'i ddyfalbarhad.

Sgiliau – gallech ddadansoddi sgiliau cymdeithasol/ sgiliau corfforol/ meddwl/ deallusol ‘ehangach’ a allai effeithio ar ddysgu iaith a mathemateg gan ddefnyddio tystiolaeth wedi’i seilio ar samplau o waith a

Gwybodaeth (a dealltwriaeth) – gallech ddadansoddi gwybodaeth ieithyddol a mathemategol y dysgwr gan ddefnyddio tystiolaeth a ddaw o samplau gwaith ac arsylwadau.

Cynnydd ar gyfer y Dyfodol– tua 1, 200 o eiriau

Yn y rhan hon, dylech amlinellu, gyda chymorth a ddaw drwy ddarllen, yr hyn y **byddech chi’n** ei wneud er mwyn sicrhau bod y plentyn yn gwneud cynnydd o ran iaith a mathemateg. Dylai’r rhan hon fod yn fwy na rhestr o feysydd addysgu ar gyfer y dyfodol yn unig – dylai fod yn berthnasol i’ch casgliadau gan ddangos eich gallu i adfyfrio ar eich addysgu. Gallai gynnwys elfennau, megis sut y gallech gefnogi’r dysgwr wrth iddo ddatblygu agwedd, sgiliau a gwybodaeth a fyddai’n cynorthwyo datblygiad pellach mewn iaith a mathemateg.

Dylid ystyried strategaethau addysgu cyffredinol (megis modelu/ sgaffaldio/ holi gwahaniaethu) yn y rhan hon.

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae’r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â’r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae’n rhaid i’ch gwaith gael ei lywio a’i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy’n *berthnasol* i’r dasg/tasgau a osodwyd ac sy’n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academiaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academiaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academiaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae’n rhaid ystyried/dethol gwefannau’n ofalus iawn a dylid eu defnyddio’n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwyd fod yn gyfredol, a’r rhan fwyaf wedi’u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o’ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnod addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 5, dylech allu dangos: gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y maes pwnc a’r ffordd y mae’r egwyddorion hynny wedi datblygu; gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â’r ffeithiau, y wybodaeth a’r sgiliau rydych wedi’u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a’r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a’r theorïau ac ati sy’n briodol i’r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio’r damcaniaethau, cysyniadau ayyb, yn ystrolon i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth.

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu dadansoddi gwybodaeth yn feirniadol, a chynnig atebion i broblemau sy’n deillio o’r dadansoddi hwnnw, yn cynnwys gwerthuso’n feirniadol addasrwydd gwahanol ddulliau o ddatrys problemau. Rhaid i’ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol, gwerthuso a synthesis. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio ‘beth’ yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble?

Ar ba gost? Rhaid i chi bob amser ddarparu cyfiawnhad/tystiolaeth ar gyfer eich dadleuon a'ch barn. Mae darparu tystiolaeth eich bod wedi adfyfrio ar syniadau pobl eraill yn y maes pwnc yn hanfodol os ydych am gyflwyno dadl resymegol a gwybodus o fewn eich gwaith. Yn ogystal, dylech ddarparu tystiolaeth o'ch gallu i ffurfio barn gadarn a dadleuon argyhoeddiadol trwy ddefnyddio data a chysyniadau, ynghyd â dealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar wybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar ddadansoddiadau a dehongliadau. Mae casgliadau cadarn, dilyys yn hanfodol ac mae'n rhaid iddynt ddeillio o gynnwys eich gwaith. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 5, dylech allu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig o fewn y ddisgyblaeth, a chymhwyso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau, y gall rhai ohonynt fod yn greadigol. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig. Dylech ddangos ymwybyddiaeth o gyfyngiadau cysyniadau a theorïau wrth eu cymhwyso mewn cyd-destunau penodol.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys dangos: datblygiad proffesiynol i wella sgiliau presennol a chaffael cymwyseddau newydd a fydd yn eich galluogi i ymgymryd â chyfrifoldeb sylweddol o fewn sefydliadau; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed yn unigol a/neu'n gydweithredol; eich bod yn gallu defnyddio cyfryngau priodol i gyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	Marciau sydd ar gael	Marciau a ddyfarwyddwyd
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
	20%	
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
	20%	
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
	20%	
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
	20%	
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		
	20%	

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)		%
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 5

Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 5 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi datblygu gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth, ac o'r modd y datblygwyd yr egwyddorion hynny. Byddant wedi dysgu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion hynny'n fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cymhwyso'r egwyddorion hynny mewn cyd-destun cyflogaeth. Bydd ganddynt wybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y maes pwnc, a gallu i werthuso'n feirniadol ddulliau gwahanol o ddatrys problemau. Byddant yn meddu ar ddealltwriaeth o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau. Byddant yn gallu defnyddio ystod o dechnegau sefydledig i gychwyn ac ymgymryd â dadansoddiad beirniadol o wybodaeth, ac i gynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad hwnnw. Byddant yn gallu cyfleu gwybodaeth, dadleuon a dadansoddiad yn effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaoedd arbenigol ac anarbenigol, a defnyddio technegau allweddol y ddisgyblaeth yn effeithiol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach, datblygu sgiliau cyfredol, ac ennill cymwyseddau newydd a fydd yn eu galluogi i dderbyn cyfrifoldebau sylweddol o fewn sefydliadau. Bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnod, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnod	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnod amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau. Gall y cyfeirnod ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Defnydd da iawn o gyfeirnod, â fawr ddim/dim anghywirdebau	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnod'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnod lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
	mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnod.		.	neu anghysonderau		
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Gwybodaeth gadarn a dealltwriaeth feirniadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn eu maes astudiaeth; gwybodaeth am y prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.)	Bylchau mawr yn y wybodaeth gyda dealltwriaeth anfoddhaol, anfeirniadol o'r deunydd pwnc. Llawer o ddeunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol. Dealltwriaeth ddiffygiol iawn o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth ddarniog, gyda dealltwriaeth feirniadol arwynebol yn unig. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol. Dealltwriaeth anghyflawn neu rannol ddiffygiol o'r prif ddulliau ymholi yn y ddisgyblaeth.	Gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol gyfyngedig ond digonol o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig yn y maes pwnc, gydag ychydig o fylchau yn y dewis o ddeunydd. Dealltwriaeth feirniadol gyfyng o'r prif ddulliau ymholi.	Mae'r wybodaeth yn weddol fanwl a chywir. Dealltwriaeth feirniadol dda o'r cysyniadau a'r egwyddorion sefydledig a'r prif ddulliau ymholi, gyda mân fylchau yn y dewis o ddeunydd.	Mae'r wybodaeth yn weddol helaeth. Arddengys ddealltwriaeth feirniadol gymwys iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gwybodaeth eang a manwl.	Gwybodaeth fanwl, ragorol a dealltwriaeth feirniadol iawn o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi.	Gwybodaeth eithriadol o fanwl, a dealltwriaeth feirniadol ragorol o gysyniadau ac egwyddorion sefydledig y pwnc a'r prif ddulliau ymholi. Gall fynd y tu hwnt i theorïau sefydledig.
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol; dadl a barn; y cyfyngiadau ar	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda defnydd arwynebol o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol.	Ymgais cyfyngedig at werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Peth tystiolaeth	Rhywfaint o werthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, er ei fod yn ddisgrifiadol mewn mannau. Ymwybyddiaet	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau mewn modd beirniadol, cadarn. Yn ddethol o ran ystod y dystiolaeth a ddefnyddir ac yn cyfuno yn	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, rhagorol gan arwain at ddadleuon a barn rhesymegol a	Gwerthuso a dadansoddi cysyniadau ac egwyddorion mewn modd beirniadol, eithriadol. Defnyddia dystiolaeth yn eithriadol o dda i gysylltu

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiad au a'u dehongliadau.)	beirniadol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Cyffredinoliadau neu farn heb sail, wedi'u gwneud heb ddefnyddio unrhyw dystiolaeth gredadwy.	Datblygu gwan ar ddadleuon a barn. Derbynir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	i gefnogi dadleuon a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol, ag ychydig o anghysondeb / camddehongli neu wedi methu cydnabod yn llawn y cyfyngiadau ar wybodaeth.	h gynyddol o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth a'u gallu i ddefnyddio dystiolaeth i gefnogi'r ddadl er gyda thuedd i daeru / datgan barn yn hytrach na dadlau ar sail rheswm a thystiolaeth. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan.	hytrach na disgrifio. Gallu i ddyfeisio dadleuon sy'n dangos ymwybyddiaeth o safbwyntiau gwahanol, ac i ddefnyddio dystiolaeth mewn modd argyhoeddiadol i gefnogi barn briodol a dilys.	rhesymedig ar sail tystiolaeth. Cydnabyddiaeth eglur o safbwyntiau eraill ac ymwybyddiaeth gref o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth. Gallu i feddwl yn annibynnol ac i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu rhywfaint o afael ar y maes a'r cysyniadau ehangach.	syniadau, a chefnogi dadleuon a barn rhesymegol ac argyhoeddiadol iawn. Tystiolaeth o feddwl yn annibynnol a gallu i 'weld y tu hwnt i'r cwestiwn', gan awgrymu gafael eglur ar y maes a'r cysyniadau ehangach. Cydnabyddiaeth dreiddgar o'r cyfyngiadau ar eu gwybodaeth, a'r modd y mae hyn yn dylanwadu ar eu dadansoddiadau a'u dehongliadau.
Sgiliau ymarferol (Cymhwyso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol)	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau sefydledig,	Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau	Ymwybyddiaeth ddigonol o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu	Cymhwyso dulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu dechnegau	Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu	Cymhwyso ystod o ddulliau sefydledig, deunyddiau, offer a/neu	Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio gan ddefnyddio

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
sylfaenol yn fwy eang y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf; defnyddio ystod o dechnegau sefydledig; cynnig atebion i broblemau sy'n deillio o'r dadansoddiad.)	deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth gyfyngedig o gymhwyso theori i arfer neu o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan iawn y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Dealltwriaeth wan o gymhwyso theori i arfer, gyda thystiolaeth achlysurol yn unig o wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Sgiliau datrys problemau gwan y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	dechnegau ac yn cymhwyso'r rheini mewn modd priodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gwybodaeth a dealltwriaeth ddamcaniaethol wedi'u cymhwyso'n ymarferol, ond heb wneud cysylltiadau rhesymegol rhwng y ddau bob tro. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion sylfaenol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol ar y cyfan, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol ar y cyfan y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso, gyda mewnwelediad treiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau priodol rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion priodol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf. Tystiolaeth o rywfaint o greadigrwydd.	dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn dreiddgar. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau a chynnig atebion creadigol, rhagorol y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.	dulliau sefydledig, offer a/neu dechnegau. Cymhwyso theori i arfer mewn modd cyson, cywir a rhesymegol, gan wneud cysylltiadau datblygedig iawn rhwng y ddau. Gall ddynodi problemau arferol ac anarferol a chynnig atebion creadigol, eithaf soffistigedig y tu allan i'r cyd-destun lle y'u hastudiwyd yn gyntaf.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol	Cyfrwng cyfathrebu yn amhriodol neu wedi'i gam-gymhwyso. Mae'r gwaith	Cyfrwng cyfathrebu wedi'i ddylunio'n wael a/neu ddim yn addas at y	Gall gyfathrebu mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa ond gyda lle i wella.	Gall gyfathrebu'n effeithiol mewn cyfrwng sy'n addas ar gyfer y gynulleidfa,	Gall gyfathrebu'n dda, yn hyderus ac yn gyson mewn cyfrwng sy'n	Gall gyfathrebu'n broffesiynol, yn hyderus ac yn gyson mewn cyfrwng sy'n	Gall gyfathrebu gyda lefel eithriadol o uchel o broffesiynoldeb, sy'n addas

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
(Cyfleu'n effeithiol ar amrywiaeth o ffurfiau i gynulleidfaod d arbenigol ac anarbenigol; y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau.)	wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau .	gynulleidfa. Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd digyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaethau rhannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud	Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlynad mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau i bobl eraill ond efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau u grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud	ond gall fod â mân wallau. Mae'r gwaith yn gydlynol a threfnus ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau , gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n dda iawn yn ymreolaethol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau , gyda mân wendid achlysurol yn unig.	addas ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n fedrus. Gall weithio'n ymreolaethol gyda menter. Lle bo'n berthnasol gall weithio'n broffesiynol o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain fel y bo'n briodol, gan fodloni ymrwymadau. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau , gydag awydd i ddatblygu ymhellach.	iawn ar gyfer y gynulleidfa. Mae'r gwaith yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n eithriadol o dda o fewn tîm, gan ddangos sgiliau arwain. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer cyfrifoldeb personol a gwneud penderfyniadau gydag awydd i ddatblygu ymhellach.

Lefel 5	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3 ^{ydd} / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1 ^{af} / Rhagoriaeth)
Categori	0-29%	30-39%	40-49%	50-59%	60-69%	70-84%	85-100%
		penderfyniadau .	penderfyniadau , gyda rhai meysydd o fân wendid.				

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG